

CYDBWYLLGOR CYSWLLT Y SECTOR GWIRFODDOL

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 29 Ebrill, 2025.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.M. Birch (Cadeirydd); Cynghorwyr L. Burnett, A.M. Collins a J. Protheroe.

Cynrychiolydd o'r Sector Gwirfoddol: R. Connor (Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg) a L. Newton (Gweithredu dros Iechyd Meddwl Caerdydd a'r Fro).

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd M.R. Wilson (Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan y Cynghorydd I.R. Buckley (Is-gadeirydd) a'r Cynghorydd C. Hawkins (Cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned).

COFNODION –

CYTUNWYD – Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ionawr, 2025 fel cofnod cywir.

DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

CAU CAVAMH YN Y DYFODOL AGOS – GWEITHREDU DROS IECHYD MEDDWL CAERDYDD A'R FRO –

Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan L. Newton, yn hysbysu Cyngor Bro Morgannwg am gau Gweithredu dros Iechyd Meddwl Caerdydd a'r Fro (CAVAMH)

sydd ar ddod a'r goblygiadau ar gyfer cefnogi sefydliadau gwirfoddol sydd â diddordeb mewn iechyd meddwl ym Mro Morganwg a'r trigolion lleol a gefnogwyd ganddynt.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod cyllid CAVAMH gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi dod i ben ar 1 Ebrill 2025, ac o ganlyniad, byddai CAVAMH yn cau ym mis Medi 2025. Dywedwyd nad oedd CAVAMH wedi cael rheswm na rhesymeg dros dynnu'r cyllid yn ôl, ac felly roedd y Pwyllgor yn awyddus i ddeall safbwynt y Bwrdd Iechyd a'i benderfyniad i dynnu ei gyllid yn ôl. Yn ogystal, byddai'r Pwyllgor hefyd yn ddiolchgar o ddeall a oedd unrhyw fylchau gwasanaeth wedi'u nodi gan y Bwrdd Iechyd, a sut mae'n bwriadu llenwi'r bylchau hynny yn y ddarpariaeth gwasanaeth yn dilyn rhoi'r gorau i'r gefnogaeth a gynigir gan CAVAMH, os oedd unrhyw rai. Felly cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Bwrdd Iechyd ar ran y Pwyllgor i dderbyn ymateb i'w ymholiadau.

Wedi hynny, fe

CYTUNWYD – Y BOD Cadeirydd Pwyllgor Cyswllt ar y Cyd y Sector Gwirfoddol yn ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro i ganfod ei reswm dros dynnu cyllid yn ôl i Weithredu Caerdydd a'r Fro dros Iechyd Meddwl ac i gynghori sut y byddai unrhyw fylchau yn y gwasanaeth yn cael eu llenwi.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EFFAITH LEOL CYNNYDD YSWIRIANT GWLADOL AR DRYDYDD SECTOR BRO MORGANNWG – GWASANAETHAU GWIRFODDOL MORGANNWG –

Cyflwynodd R. Connor yr adroddiad a oedd yn hysbysu Cyngor Bro Morganwg am oblygiadau lleol sylweddol y cynnydd cenedlaethol sydd ar ddod yn Yswiriant Gwladol Cyflogwyr, yn weithredol o fis Ebrill 2025. Er bod y newid hwn y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y Cyngor, byddai'n cael effaith ddofn ar y sefydliadau Trydydd Sector hanfodol sy'n gweithredu yn ein cymuned. Cyflwynodd Gwasanaethau Gwirfoddol Morganwg y wybodaeth i sicrhau bod y Cyngor yn gwbl ymwybodol o'r heriau posibl a'i fod yn gallu ystyried ymatebion lleol priodol.

Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn cael gwybod am unrhyw faterion a nodwyd oherwydd y cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol.

CYTUNWYD – Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad a bod Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol ar y Cyd yn cael ei hysbysu am unrhyw faterion.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.